# EUR(2) 01-04(p01)

# Pwyllgor Materion Ewropeaidd Ac Allanol

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | 22 Ionawr 2004 |
| Amser: | 09:00 |
| Lleoliad: | Ystafelloedd Pwyllgora 3 a 4, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol, Bae Caerdydd |
| Teitl: | Adroddiad o'r Cyfarfod rhwng Cadeiryddion Pwyllgorau Ewropeaidd y DU |

## Pwrpas

1. Dyma adroddiad ar gyfarfod cadeiryddion Pwyllgor Ewropeaidd y DU a gynhaliwyd ar 12 Ionawr.

## Gweithredu:

2. Gwahoddir yr aelodau i nodi cynnwys y papur.

## Cefndir

3. Mae cadeiryddion pwyllgorau Ewropeaidd T'r Cyffredin, T'r Arglwyddi, Senedd yr Alban, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chynulliad Gogledd Iwerddon yn cwrdd yn aml i drafod materion sydd o ddiddordeb i'r naill a'r llall. Cynhaliwyd y cyfarfod diweddaraf yn Aberdeen ar 12 Ionawr.

4. Trafodwyd y materion canlynol yn y cyfarfod:

- Trafodaeth bord gron: y gwaith a wneir gan bob pwyllgor
- Datblygu System Rhybudd Cynnar ar Sybsidiaredd
- Materion ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod - Nodi'r ehangu

## Adroddiad y Cyfarfod

5. Richard Lochhead ASE, Cadeirydd Pwyllgor Cysylltiadau Allanol Senedd yr Alban, oedd cadeirydd y cyfarfod. Dyma weddill aelodau'r cyfarfod:

- Jimmy Hood AS, Cadeirydd Pwyllgor Archwilio Ewropeaidd, T'r Cyffredin;

- Barwnes Harris o Richmond, Cadeirydd Is-Bwyllgor F o'r Pwyllgor Dethol yr Undeb Ewropeaidd, T'r Arglwyddi;
- Sandy Mewies AC, Cadeirydd Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru;
- Nick Hawthorne a David Simpson, Clercod Cynorthwyol Pwyllgor Ewropeaidd a Materion Allanol yr Alban;
- Dorian Gerhold, Clerc Pwyllgor Archwilio Ewropeaidd T'r Cyffredin;
- Simon Burton, Clerc Pwyllgor Dethol ar yr Undeb Ewropeaidd, T'r Arglwyddi;
- Claire Bennett, Clerc y Pwyllgor Ewropeaidd a Materion Allanol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru; a
- Hugh Farren yn cynrychioli Cynulliad Gogledd Iwerddon.

6. Croesawodd Richard Lochhead bawb i'r cyfarfod, ac i Aberdeen, cyn agor trafodaeth bord gron am weithgareddau presennol a rhaglen waith pob Pwyllgor.

7. Cafodd Pwyllgor Ewropeaidd a Materion Allanol yr Alban ei ethol ar ôl etholiadau Senedd yr Alban y llynedd ac yr oedd felly yn weddol newydd. Yr oedd naw aelod ar y Pwyllgor a dim ond dau ohonynt oedd yn aelodau o'r Pwyllgor blaenorol. Cynhaliodd y Pwyllgor ddiwrnod cwrdd i ffwrdd er mwyn nodi'n glir sut yr oedd yn dymuno gweithredu a'i flaenoriaethau. Fel meysydd allweddol, roedd y pwyllgor wedi penderfynu ymchwilio i bynciau o ddiddordeb a chraffu ar ddeddfwriaeth Ewropeaidd. Yr oedd y Pwyllgor wedi cychwyn ymchwiliad ar ba mor effeithiol yr oedd yr Alban yn cael ei hyrwyddo dramor. Parhaodd y Pwyllgor â'r gwaith o archwilio deddfwriaeth Ewropeaidd ond yr oedd yn awyddus i sicrhau bod ystyriaeth o faterion Ewropeaidd yn cael ei roi yn y brif ffrwd ac yr oedd yn annog pwyllgorau pwnc i gymryd rhan amlwg yn y gwaith.

8. Yr oedd gan Bwyllgor Dethol T'r Arglwyddi ar yr Undeb Ewropeaidd prif bwyllgor a saith is-bwyllgor:

- Is-Bwyllgor A - Materion Ewropeaidd ac Ariannol, Cysylltiadau Masnach a Rhyngwladol
- Is-Bwyllgor B - Y Farchnad Fewnol
- Is-Bwyllgor C - Materion Tramor, Polisi Amddiffyn a Datblygu
- Is-Bwyllgor D - Yr Amgylchedd ac Amaethyddiaeth
- Is-Bwyllgor E - Y Gyfraith a Sefydliadau
- Is-Bwyllgor F - Materion Cartref
- Is-Bwyllgor G - Polisi Cymdeithasol a Materion Defnyddwyr

9. Mae pob un o'r Is-Bwyllgorau'n cynnal ymchwiliadau ar bynciau penodol, er mai cytundeb cyfansoddiadol yr UE gafodd y sylw mwyaf gan bob un ohonynt y flwyddyn ddiwethaf. Ymchwiliad presennol Is-Bwyllgor A yw 'Sefydliad Masnach y Byd: Rôl yr UE ar ôl Cancún'. Ar hyn o bryd mae Is-Bwyllgor B yn cynnal ymchwiliad i effaith penderfyniadau Llys Cyfiawnder Ewrop ar Gytundebau Gwasanaethau Awyr dwy ffordd rhwng Aelod-Wladwriaethau yr UE a'r Unol Daleithiau. Mae Is-Bwyllgor C yn cynnal ymchwiliad o Gymorth Datblygu Rhyngwladol yr UE. Bydd Is-Bwyllgor D yn

cynnal ymchwiliad i bolisi newid yn yr hinsawdd yr UE maes o law. Ymchwiliad presennol Is-Bwyllgor E oedd edrych ar y Cynnig ar gyfer Rheoliad y Senedd Ewropeaidd a'r Cyngor ar y gyfraith sy'n berthnasol i ymrwymiadau di-gontract (ROME II) (COM 2003) 427 Final). Mae Is-Bwyllgor F yn cynnal ymchwiliad o'r cynigion i agweddau newydd ar gyfer y broses lloches a nodwyd mewn Dogfen Gyfathrebu dyddiedig 3 Mehefin 2003 oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd. Mae Is-Bwyllgor G yn newydd iawn ac ar hyn o bryd mae'n penderfynu ar ei flaenraglen waith.

10. Mae Pwyllgor Archwilio Ewropeaidd T'r Cyffredin wedi ystyried yn fanwl y Confensiwn ar ddyfodol Ewrop a'r cyfansoddiad Ewropeaidd drafft. Ystyried y cynigion Ewropeaidd drafft a thynnu sylw at eu goblygiadau cyfreithiol a gwleidyddol yw prif ganolbwynt gwaith y Pwyllgor. Nid yw'r Pwyllgor fel arfer yn cynnig sylwadau ar rinweddau'r cynigion o ran polisi.

11. Yr oedd Pwyllgorau T'r Cyffredin a Th'r Arglwyddi yn awyddus i gefnogi'r Pwyllgorau mewn sefydliadau sydd wedi'u datganoli er mwyn eu galluogi i archwilio cynigion Ewropeaidd yn ogystal ag ymateb y llywodraeth i'r cynigion hynny, yn llawn. Cytunwyd y byddai Clercod y pwyllgorau yn meithrin y cysylltiadau hyn ac yn nodi pa gymorth fyddai o ddefnydd iddynt.

12. Cyn i Gynulliad Gogledd Iwerddon gael ei atal, y Pwyllgor Canolog oedd yn gyfrifol am faterion Ewropeaidd, er yr oedd y Pwyllgor wrthi’n penderfynu a oedd angen Pwyllgor Ewropeaidd ar wahân ar y Cynulliad pan gafodd ei atal. Nid oedd yn glir pa bryd y byddai'r Cynulliad yn cael ei ailsefydlu.

13. Cafwyd trafodaeth ynghylch a oedd y Seneddau/Cynulliadau yn bwriadu trefnu gweithgareddau i nodi ehangu yn ystod y flwyddyn. Cytunodd y Cadeiryddion i godi'r mater pan fyddent yn dychwelyd i'w Pwyllgorau.

14. Cynulliad Cenedlaethol Cymru fydd yn gyfrifol am gyfarfod nesaf Cadeiryddion Pwyllgorau Ewropeaidd y DU rhywbryd yn ystod mis Medi / Hydref.

## Man cyswllt

Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau